# MYFYRDOD
## Uwchben Bedd Mr. Owen Thomas,
GWALCHMAI, MON,

*Yr hwn a fu farw Chwefror 2fed, 1857, yn 71 mlwydd oed;*

A'I GYFAILL

## Y Parch. Wm. Charles, Gwalchmai.

---

Yn y llanerch hon o'r ddaear
Gwelaf isod, er fy ngalar,
Le gorwedda 'nawr weddillion
Dau oedd gynt yn hoff gyfeillion.

William Charles ac Owen Thomas,
Dau tra ffyddlawn yn eu heinioes;
Dau o ardal Gwalchmai oeddynt,
Lle mae hiraeth mawr am danynt.

Buont gyda'u gilydd droion
'N teithio gwledydd Mon ac Arfon,
Fel byddai Charles i efengylu,
'Rhwn er's talm sy wedi tewi.

Ond er hyny mae eu coffa
'N fendigedig draw ac yma,
Trwy y wlad yn ddiwahaniaeth
Ac o'u colli mae mawr hiraeth.

Mae'n wir fod blynyddau rhyngddyn',
Un fel tad a'r llall fel plentyn;
Owen Thomas ro'i gynghorion,
Charles fel plentyn ufydd tirion.

Fe fu ef am rai blynyddau
Cyn ein gadael dan gystuddiau,
A'i hoff rai yr amser yma
Ydoedd Thomas, a'i gyffuria'.

Dydd cyn ei farw 'rwy'n cofio,
William Charles ofynai iddo,
Owen Thomas, yw beryglus?
Gan ei fod yn teimlo'n glwyfus.

Yntau yn ei ddull mwy siriol
A'i hatebai yn naecaol,
Am nad allai'i dyner galon,
Ddal i ddweyd y gwir yn union.

A phan oedd yn rhydau'r afon,
Owen Thomas safai'n eon,
A gofynai'r amser hono
Pa fodd'r ydoedd ef yn teimlo!

X205 315231

Yntau dd'wedai yn ddibetrus
Fod pobpeth ganddo'n gysurus;
Yna CHARLES 'mhen rhai munydau,
Laniai'n sâff mewn man ddymunai.

Felly ar yr adeg yma
Y ddau gyfaill ymwahana,
Un ehedodd fry i'r nefoedd,
A'r llall yma a arosodd.

Cydnabyddem Dduw yn benaeth
'N ngwyneb dyrys drefn rhagluniaeth;
Cym'rodd CHARLES er gofid ini,
Cawsom THOMAS fwyn i'n gweini.

Oh! ein cyfaill, OWEN THOMAS,
Pwy mor fuddiol mewn cymdeithas?
Fe wnai gydag 'w'llys calon
Bob cynorthwy i'w gyd-ddynion.

Ac yr oeddym bawb yn addo
Iechyd a hir ddyddiau iddo;
O! fel 'roeddym oll fel ardel
A'n dysgwyliad wrtho'n uchel.

Ond pan oeddym fwya'n disgwyl
Ef er hyny gadwai noswyl;
Dyna sydd i'w ddweyd am dano,
Mae 'nawr yn yr Iesu'n huno.

'Nawr wrth gofio 'i gymwynasau
Pwy all beidio wylo'r dagrau;
Cofio cymaint a wnaeth erom
Yr ym heddyw'n drwm ein calon.

O! fel byddai ef mor gyson
Yn y capel yn mhob moddion;
Os dygwyddai fod 'n absenol
Mawr a'r holi byddai'r bobol.

Bu'n ein plith flynyddau hirion
'N gweini 'i swydd fel blaenor ffyddlon,
Myn'd a dod i'r cyfarfodydd
Drosom byddai ef yn ufydd.

O! mor chwith i'r Eglwys yma
Ei fod heddyw dan briddellau,
Na bae eto fel arferol
Yn gwylio drosti hi yn wrol.

Os cyfodai ymrysonau
Yn yr Eglwys ar adegau,
Fe ddysgwyliai pawb bob amser,
Iddo ef derfynu'r mater.

Yr hyn a wnai'n fwyn a siriol
Mewn awdurdod anarferol,

Cliriai'r glân, condemnia'r beius,
A phob peth ddo'i i'w le'n hwylus.

Ac nid siarad wnai yn segur,
Ond croesawai y pregethwyr;
Nol a danfon rhai'n y byddai—
Er mwyn crefydd gwnai a allai.

Myn'd i gyfarfod y chwech wythnos
Am flynyddau y bu THOMAS,
Y cynlluniau adref deua
Fel cai'r ysgol arnynt wledda.

Cyfaill calon'r ysgol ddyddiol,
Felly hefyd y Sabbothol;
Gwnaeth a allodd er daioni,
Yn ei ardal, i'r ddwy hyny.

Ah! mi glywaf eto'n cwynfan
Ein chwaer fechan, Eglwys Dothan,
Herwydd colli tad mor hawddgar,
Hon yn awr sy'n fawr ei galar.

Ond os âf i fanwl wrando
Ar eglwysi glywai'n cwyno,
'Achos iddynt hwy ei golli,
'N wir nis gwn pa bryd caf dewi.

Gad a Bethel, gyda Soar,
Ydynt heddyw'n fawr eu galar,
Gosen, Seion, gyda Hebron,
Wylant am y bugail ffyddlon.

Tybio 'rwyf na byddwn onest
Heb ddweyd ei fod yn nglyn â Dirwest;
Teithio wnai i'w chyfarfodydd,
Ynddynt byddai yn Gadeirydd.

Heblaw bod yn fawr mewn crefydd,
'Roedd yn mhethau'r byd yn gelfydd,
Trinai hwn a rho'i hyfforddiad
I dlodion, gweddwon, ac amddifaid.

'Roedd fel Job pan yn ei drigfan,
Cwyn ni wyddai, chwiliai allan;
Ac 'roedd ganddo gyda hyny
Ddoniau cymhwys i'w diddanu.

Os dygwyddai bod rhyw deulu
A'u hamgylchiad wedi d'rysu,
'Roedd OWEN THOMAS yma'n barod—
Rho ei ysgwydd dan eu trallod.

Ac fel hyn am faith flynyddau
Ei gwas'naethu wnai yn ddiau;
Erbyn heddyw mawr yw'r galar,
Mae o'n golwg yn y ddaear.

Nid oes genyf ond dych'mygion
Am ei agwedd a'i arferion,
Fel yn fyw o flaen fy llygaid,
Maent yn taro'n chwith i'm teimlad.

Pwysa'i ddwyfron ar y *counter*,
'Rolwg arno fyddai'n hawddgar,
Fel y gallem nesâu ato,
A rhwydd ddweyd ein helynt wrtho.

Mi ddych'mygaf wel'd y cleifion
'Nesau' mlaen dan eu harchollion,
Yntau'n siriol edrych arnynt,
Ac yn cydymdeimlo drostynt.

Pan fyddai'r claf yn traethu wrtho,
Dywedai yn aml, "Mhy," wrth wrando,
Yna fe ofynai'n hawddgar
" Hwn a hwn, pa le mae'th lester."

Ar ol ei gyflwyno iddo,
Am funyd byddai'n sy'n fyfyrio,
Yna fe ddechreuai olrhain
Ei gyffuriau mewn modd cywrain.

Codai fyny ei olygon,
Ac estynai'i ddwylaw tirion
I gofleidio ei botelau,
Rhai gynwysant ei gyfluriau.

Rhai a chnawd ac esgyrn drylliog
Ddeuant ato yn galonog,
Gan ddysgwyl cael 'n anffaeledig
Eu gwella'n holliach gan y meddyg;

Ac ni chai ond un o lawer
Ddysgwyl wrtho ef yn ofer;
'Roedd e'n hyddysg yn y natur,
A'i dolur a wellâi'n brysur.

Ond O! mor alarus, heddyw
Mae e'n ngwaelod bedd yn farw;
Ninau'n dyoddef ein gofidiau,
Heb neb cymhwys yma i'n gwella.

Gwir fod amryw o feddygon
'N meddu ar ddoniau mawr a moddion,
Ond ni wiw, gan faint eu tlodi,
I rai nesu at y rhei'ny.

Nid er elw, O! mor rhyfedd,
'Byddai ef yn rhoi ymgeledd;
Ond o gariad at dylodion
Yr ymddygai ef mor dirion.

'Nawr pan bydd fy nghorph yn boenus,
Try fy meddwl yn alarus,

Pan y cofiwyf na chai'n rhagor
Gan f'hen feddyg yr un cynghor.

Dan ei ymddiddanion mwynedd
Bu llawer un yn cael ymgeledd,
Fel bu'm inau f'hunan droea'—
Wrthym mwy 'run gair ni dd'weda.

Bu'm rai gweithiau yn dych'mygu
Ei weled gartref gyda'i deulu,
Rhai'n yn eiste'n gylch o'i gwmpas
Yntau yn cynghori'n addas.

'Roedd e'n ddyn yn mhlith ei deulu
Serchog iawn, a hawdd ei garu;
O! fel byddai ef mor addfwyn
Wrthym oll, yn was a morwyn.

Byddai'n cadw mawr awdurdod,
'Roedd ei ddull at hyn yn hynod,
Byth ni chlywid e'n bygythio,
Ond fe'n denai'n ufydd iddo.

Pan y byddai yn ymddiddan
A mi oedd was ar unrhyw amcan,
Byddai'i eiriau ef bob amser
'N dwyn i mewn ryw flasus bleser.

Ac, yn wir, fe ballai geiriau
Im' osod allan fy nheimladau,
Pan daeth ata'r newydd garw,
Fod f'hen feistr wedi marw.

Llawer gwaith ar ddechreu oedfa,
Bu'm yn chwilio'n mhlith y dyrfa,
Dysgwyl wel'd e'n codi 'fyny,
Fel y byddai, i gyhoeddi.

Pan y gwelwyf nad yw yma,
Meddwn, Gallai nad yw gartra',
Methu coelio iddo fyned
I un man na chaf ei weled.

Gwel'd ei le o dan y pwlpud
Roddai imi drymaidd ergyd,
Pan y cofiwyf na chaf eto
Byth ei wel'd yn eistedd yno.

Oh! 'r fath golled gafodd Gwalchmai,
Colli THOMAS mawr ei ddoniau,
Mae'r olwg arni'n glwyfedig,
A'i thrigolion fel yn unig.

'N wir nis gwn pa fodd i dewi,
A'r un pryd 'rwy'n ofni pechu,
Rhag fy mod, wrth ddweyd fel yma,
A'r Goruchaf yn cweryla.

Pa fodd y gallwn ni, mewn difri',
Ddweyd, O hyn daw in' ddaioni?
Mae'n yn ein cwrddyd amryw bethau,
'Dallwn mo'u hesbonio yma.

Mae dydd yn do'd bydd pethau felly
'N cael eu dwyn i lwyr oleuni;
Pan gyrhaeddwn oleu'r eilfyd
Bydd hyn i ni yn oleu hefyd.

Bu dan gystudd amryw fisoedd,
Ond ef yn dawel a'i dyoddefodd;
Aeth drwyddo oll yn amyneddgar,
Tra bu yma ar y ddaear.

Pan oedd bron a chroesi'r afon,
THOMAS fwyn ymddygai'n dirion,
Gan ymostwng yn ddifrifol
I ewyllys ei Dad nefol.

'Nawr fe dd'wedai, fel arferol,
Fod geiriau'r Beibl yn synwyrol,
Ac adroddai ddarn o adnod—
"Am hyny byddwch chwithau barod."

Galwai'n mlaen ei anwyl briod,
Siglai law yn dirion hynod,
Gan ddweyd, ei fod yn myned adra',
A gofynai, a dd'ai hithau.

Yna galwai, mewn modd cynhes,
Ar ei forwyn, Mary Evans,
Ac a siglai law â hithau,
Gan ddywedyd yr un geiriau.

Ac yn nesaf galwai Eliza,
I siglo llaw am y tro ola';
Pawb oedd yno y pryd hyny
A ffarweliodd gyda'i deulu.

Wrth ei glywed ef fel yma,
Robert Edwards a ofyna',
A oedd ganddo neb yn glynu
Pan yr oeddynt hwy yn methu?

Yntau 'tebai'n gadarnhaol,
Mewn amynedd fel arferol,
'R hyn esboniai'r adnod hòno,
Na frysia'r un o'r rhai a gredo.

Ac ar hyny ymadawodd,
Ac ehedodd fry i'r nefoedd,
Gan adael byd llawn trallodau,
I fwynhau y per ganiadau.

John Charles bregethodd yn ei wylnos,
'Rhwn oedd âg e'n gyfaill agos,

'N cant a deg a chwech o'r Salmau,
A'r bymthegfed o adnodau.

Dydd ei gladdu, 'rwyf yn cofio
'R olwg ar y dyrfa gryno,
Pawb o'r braidd yn ddiwahaniaeth
'N tywallt dagrau hallt yn helaeth.

Yn y capel fe bregethodd,
I alarus dorf o bobloedd,
William Roberts, gŵr o Amlwch,
Cyd drafaeliwr 'run anialwch.

Wrth y bedd fe wasanaethai
Ebenezer rhwydd ei ddoniau;
Ar ol darfod y gwasanaeth,
Pawb edrychent oll ar unwaith

Ar ei gorph ef mewn modd parchus,
Gan chwech o ddynion anrhydeddus
'N cael ei ro'i i lawr mewn daear,
Lle mae heddyw, er ein galar.

Ac er hyny mawr yw'r holi,
Pwy gawn i'w le wna ei lenwi?
Ond er ini fanwl chwilio,
Ni chaed neb i'r golwg eto.

Pe bai'n bosibl in' trwy ddagra'
Ei gael e'n ol i'r ddaear yma,
Mi wn hyn, a gallaf dystio,
Na chai aros fynyd yno.

Deuai'r cleifion trwm ei calon,
'N llu dan amryw o drallodion,
Deuai'r gweddwon a'r amddifaid,
Gollyngent ddagrau fel llifeiriant.

Deuai'r eglwys oll yn gryno,
Plant yr ysgol a dda'i yno,
A gollyngent ddagrau ddigon
I dy nofio o'i gwaelodion.

Yn eu plith mi ddeuwn inau,
A gollyngwn ffrwd o ddagrau;
Ond er hyny, trwm yw d'wedyd,
Wylo 'rym ac hebddo hefyd.

Pe bae'r byd i gyd yn gryno
'N tywallt dagrau ac och'neidio,
Ni wnai brenin dychryniadau
Yr un cyfrif o'i ffol bethau.

'Nawr, fy nghyfaill, wrth derfynu,
Chwant sydd arnaf ofyn iti,
A oes arnat ti ddim hiraeth
'Ddod yn ol i'r ddaear eilwaith?

'Rwyf yn awr yn nhir y gwynfyd,
Wedi gadael pob rhyw adfyd,
Ac ni ddown yn ol i'r unrhyw,
Can's yma llawer iawn gwell ydyw.

Ond beth meddi am dy briod
Sydd yn awr yn fawr ei thrallod ;
Mae ei chalon ar ymdori
'Herwydd iddi hi dy golli.

Mae pob undeb wedi darfod
Rhyngof fi yn awr â'm priod,
'Doedd yr amod ar y dechreu
Ond hyd nes gwahana angeu.

'Nawr ti weli mai peth ofer
I mi ddod yn ol i'r ddaear,
Ac wrth hyny byddwn hefyd
'N dewis croes lle coron bywyd.

Byd yw hwna'n llawn o groesau
Troell rhagluniaeth a blinderau,
Yma mae'r orphwysfa hòno
Mae Duw yn ei air yn addo.

Oh! fel 'roeddwn gynt mor ynfyd
'N ceisio'th ddwyn yn ol i'r adfyd,
Minau f'hunan wedi blino
A chwant weithiau i fyn'd o hono.

Ond nid cynfigenu 'rydus
Wrth dy ddedwyddwch'n mharadwys
Ond methu'n lân 'rym a gwybod
Pa fodd gallwn wneuthur hebod.

'Nawr 'rwy'n tewi gyda dywedyd
Wrth ei weddw sydd mewn blinfyd,
Sych dy ddagrau—paid a chwyno,
Ti gei Iesu'n briod eto.

Dyro arno ef dy oglud,
Dyg di'n sâff i dir y bywyd;
A phery gyda thi mewn undeb
Hyd derfynau tragywyddoldeb.

Wele'n awr mae'n rhaid terfynu,
Er fod 'nagrau i heb sychu ;
Ni chaf wel'd tra ar y ddaear,
Neb cyffelyb i f'hen feister.

HENRY WILLIAMS, Gwalchmai.

---

*Caernarfon: argraffwyd gan H. Humphreys.*